

Helfa'r Coed Hynafol

CA3 Daeryddiaeth

DEALL LLEOEDD

NODIADAU ATHRAWON

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi derbyn copïau o fapiau OS y gwnaethant gais amdanynt yn rhad ac am ddim dros y 3 blynedd diwethaf. Mae ysgolion fel rheol yn dechrau gyda'u hardal leol gyda graddfa o 1:25,000. Felly, dylai fod gan ysgolion gyflenwad eithaf da o fapiau lleol.

Os nad oes gennych fapiau, gallwch lawrlwytho mapiau o'r gwefannau canlynol:

- www.emapsite.com** Dyma gwmni masnachol sy'n caniatu i ysgolion lawrlwytho gwahanol fathau o fapiau yn rhad ac am ddim. Bydd hyn yn dod i ben yng Ngorffennaf 2008. 1:10,000 yw'r map gorau fan hyn. Mae'n rhaid i'r ysgol gofrestru (am ddim) ac mae'n rhaid bod ganddi'r rhaglen GIS gywir i dderbyn y mapiau a lawrlwythwyd. Gellir hefyd lawrlwytho'r rhaglenni hyn yn rhad ac am ddim.
- Cysylltwch â'r Swyddog Cyswllt Awdurdod i'ch awdurdod lleol a fydd yn rhoi gwybod i'r ysgol pa ddata map y gallant ei roi i chi. I ganfod manylion cyswllt eich Swyddog Cyswllt Awdurdod lleol, ffoniwch: 08456 05 05 05
- Rhwydwaith rhanbarthol i'ch ardal, os oes un, neu Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Cymru (GdaD Cymru) <http://www.ngfl-cymru.org.uk/>. Mae Yorkshire and Humberside Grid for Learning (YHGfL) hefyd wedi cydlynu GIS rhanbarthol newydd sy'n rhad ac am ddim i bob ysgol. Y wefan yw <http://loc8.yhgfl.net> yr Enw defnyddiwr yw: **yhgfl** a'r cyfrinair yw gis Mae gan y wefan hon nifer o fapiau graddfa gwahanol o'r ardal, mapiau defnydd tir ac awyrluniau y gallwch eu harosod ar y mapiau.
- Gwefan Arolwg Ordnans a chlicio ar "get a map." Yma, gallwch lawrlwytho ac argraffu map o'r ardal o'ch dewis yn rhad ac am ddim

Nodau:

Deall rhai nodweddion ffisegol a dynol o le go iawn sy'n lleol i'r disgyblion.

Herio dealltwriaeth disgyblion o'u cymdogaeth.

Sgiliau – Deall Lleoedd, amgylcheddau a phrosesau

- disgrifio ac esbonio nodweddion ffisegol a dynol
- esbonio achosion ac effeithiau prosesau ffisegol a dynol a'r gydberthynas rhwng y prosesau

Sgiliau – Lleoli Lleoedd, amgylcheddau a phatrymau

- defnyddio gwahanol fathau o fapiau, cynlluniau a delweddau ar wahanol raddfeydd a TGCh i ddehongli a chyflwyno gwybodaeth leoliadol.

Ystod

- gwneud gwaith maes i arsylwi ar leoedd a phrosesau go iawn a'u hymchwilio
- astudio dinasyddion y dyfodol: materion yng Nghymru a'r byd ehangach o fyw mewn modd cynaliadwy a chyfrifoldebau bod yn ddinesydd byd-eang
- gofyn ac ateb cwestiynau

Adnoddau

Mapiau OS

Cwmpawd

Clinomedr i fesur ongl llethr

Canllawiau adnabod coed

Google Earth wedi'i lawrlwytho

(i weld ffotograff o'r coed a fapiwyd)

Cynnal gwaith maes.

Cyflwyno'r disgyblion i waith Coed Cadw



COED CADW
WOODLAND
TRUST

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llun-gopio a'u rhannu. Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.

www.woodlandtrust.org.uk www.AncientTreeHunt.org.uk

Helfa'r Coed Hynafol

CA3 Daeryddiaeth

DEALL LLEOEDD

Cyflwyniad/Cyswllt

Gosodwch ddau label un bob ochr i'r dosbarth gyda'r datganiadau hyn::

**CREDAF FOD COEDYN BWYSIG AC Y DYLEM
GEISIO'U GWARCHOD**

**NI CHREDAF FOD COEDYN BWYSIG IAWN, AC
NID OES ANGEN EU GWARCHOD**

Gofynnwch i'r disgyblion sefyll rhwng y ddau label yn ôl eu safbwyntiau. (Gellir ail-adrodd yr ymarfer hwn ar ôl y gwersi i weld a yw safbwyntiau wedi newid.)

Llun o goeden hynafol gyda changhennau ategol – un o Ganolbarth Lloegr o www.woodland-trust.org.uk neu ewch i'r adran Coed Enwog Cenedlaethol ar eu safle a chliciwch ar y **Major Oak Nottinghamshire** – y llun mwy diweddar. Edrychwch ar unrhyw un o'r lluniau a cheisiwch ateb y canlynol **Beth, Ble, Pam, Pwy, Pryd?**

Cyswllt – gofynnwch i'r disgyblion “Codwch eich dwylo os ydych wedi dringo coeden erioed.” Pam? Pryd? Lle?

(Cysylltwch â'ch awdurdod lleol am wybodaeth ar goed wedi'u gwarchod yn eich ardal). Mae'n bosibl bod gwrychoedd hefyd wedi'u gwarchod oherwydd bod rhai ohonynt yn ffiniau sy'n dyddio'n ôl cannoedd o flynyddoedd, e.e. ffin plwyf. Os ydych am ddyddio gwrych, mesurwch ddarn 30 m a chyfrwch sawl rhywogaeth gwahanol o lwyni coediog sydd yno. Mae pob rhywogaeth yn cynrychioli tua 100 mlynedd o dyfiant.

Gweithgaredd: – dylai'r disgyblion rannu syniadau ar sut y defnyddir coed ac ysgrifennu'r syniadau yn amlinelliad y goeden ar y daflen waith.

Gwaith Maes

Cyflwynwch y gwaith maes – fe fydd yn rhaid i chi ymdrin â materion fel perchenogaeth, mynediad a iechyd a diogelwch.

Rydym yn mynd i chwilio am y canlynol a'u cofnodi ar fap - gwrychoedd, coetiroedd, coed yn sefyll ar eu pennau eu hunain, unrhyw goed y credwn eu bod yn rhai hynafol.

I adnabod coeden hynafol – ewch i'r wefan

www.ancient-tree-hunt.org.uk a dewiswch “Cymraeg”.

Yna, cliciwch ar “Beth yw coed hynafol,” sgriliwch i'r gwaelod a chliciwch ar “Sut i adnabod coed hynafol”.

Beth yw coeden hynafol? (Taflen wybodaeth) Ewch i'r wefan 'Coed Hynafol' a chwiliwch am goed hynafol yn eich ardal chi. Ysgrifennwch eu lleoliad – ble mae'r un agosaf?

Nid yw llawer ohonynt wedi'u mapio, felly rydym yn gobeithio canfod un yn eich ardal leol, neu ryw hen wrychoedd a choed sy'n bwysig i chi mewn rhyw ffordd. Gofynnwch i 4 disgybl sefyll mewn cylch gan ddal dwylo'n estynedig. Dyma fyddai cwmpas derwen hynafol. Mae mwy o fesuriadau ar y wefan uchod. Gallwch nodi lleoliad unrhyw un o'ch coed perthnasol ar wefan 'Coed Hynafol'. Dilynwch y cyfarwyddiadau i leoli eich coeden/coed ar fap ac i nodi'r manylion ar y wefan (cwmpas, uchder y cwmpas, math o goeden, a oes mynediad i'r cyhoedd a chyfeirnod grid).

Bydd arnoch angen map OS o'ch ardal leol – 1:25,000 neu 1:10,000 neu 1:2,500. Os oes modd i chi gael gafael ar fapiau hyn, byddai'n ddefnyddiol dangos y newidiadau sydd wedi digwydd. Os gwyddoch am unrhyw hen barciau neu ystadau gwledig yn yr ardal leol, yna dyma'r llefydd gorau i chwilio am y coed hynaf. Gall enwau ar hen nodweddion hefyd helpu – e.e. hen fferm neu enw ffordd.

Pan fydd disgyblion yn mapio nodweddion, gallwch drafod sut caiff allwedd ei datblygu a'i defnyddio e.e. math o goeden, gwrych, ongl llethr, defnydd o dir.

Gall y nodweddion ffisegol fod yn ffactor achlysurol yn y math o ddefnydd tir, felly bydd yn rhaid i ddisgyblion gofnodi'r canlynol ar ffurf tabl – uchder y tir, ongl llethr wedi'i disgrifio a/neu ei mesur fel ongl, wyneb-wedd llethr (defnyddiwch gwmpawd i gofnodi pa gyfeiriad cwmpawd y mae'r llethr yn ei wynebu), draeniad (gallwch arllwys mesuriad penodol o ddŵr i silindr a'i osod ar y ddaear, yna cofnodi faint o amser y cymer y dŵr i ddraenio i'r pridd), y math o bridd (dadansoddiad syml, e.g. gyda chwiliedydd PH gardd neu brawf



COED CADW
WOODLAND
TRUST

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llun-gopio a'u rhannu. Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.

www.woodlandtrust.org.uk www.AncientTreeHunt.org.uk

Helfa'r Coed Hynafol

CA3 Daeryddiaeth

DEALL LLEOEDD

syml o labordai gwyddoniaeth yr ysgol. Os yw'r PH yn uchel, yna mae'r pridd yn asid), math o wastraff (os oes nodwyddau pinwydd yno, yna mae'n wastraff asid), trwch y gwastraff (mesuro i lawr i arwyneb y pridd gyda ffon fesur), ayyb.

Dilyniant

Gallwch gynnwys y syniad o gylchred maetholynnau.

Dylai'r disgyblion hefyd gofnodi nodweddion dynol, e.e. defnydd amaethyddol, adeiladau cyfagos, adeiladau sy'n nesáu, cynlluniau i'r dyfodol, y defnydd a wneir o'r coed ar hyn o bryd (hamdden, defnydd amaethyddol, camddefnyddio dynol, ayyb).

O wneud hyn, daw'r coed yn ganolbwynt ar gyfer deall daeryddiaeth yr ardal leol.

Syniadau ar gyfer gwaith pellach:

- 1) llunio map defnydd tir o'r ardal leol gan ganolbwyntio ar goed
- 2) trafodaeth o sut gellid llunio allwedd a symbolau cyffredin
- 3) asesiad o'r cysylltiadau rhwng nodweddion ffisegol a'r math o goed sydd yno
- 4) gwerthfawrogiad syml o'r gylchred maetholynnau
- 5) gwerthfawrogiad o sut gall tirluniau'r gorffennol ddylanwadu ar dirlun heddiw.

Dosbarth llawn

Gofynnwch i'r disgyblion ysgrifennu cerdd/stori/rap am y coed. Nod y dasg hon yw eu hannog i ddefnyddio'u dychymyg daeryddol ac i atgyfnerthu'r dysgu. Gallech roi meini prawf iddynt, e.e. defnyddio geiriau/termau penodol, ayyb.

Gwelsom goeden dderwen fawr,

Wir i chi, roedd hon fel cawr!




Helfa'r Coed Hynafol

CA3 Daearyddiaeth

DEALL LLEOEDD

TAFLEN WAITH DISGYBL

I. O fewn amlinelliad y goeden, ysgrifennwch yr holl ffyrdd y mae modd defnyddio coeden – meddyliwch sut rydych chi wedi defnyddio coed, sut defnyddiwyd coed yn y gorffennol, y math o greaduriaid sy'n defnyddio coed, ayyb.



Helfa'r Coed Hynafol

CA3 Daearyddiaeth

DEALL LLEOEDD

TAFLEN WAITH DISGYBL

2. Gwaith maes

Rydych yn mynd i wneud ychydig o waith maes lle byddwch yn archwilio a chofnodi coed. Rydych yn mynd i weld a oes unrhyw goed **hynafol** yn eich ardal lleol. Mae'n bosibl na fydd rhai o gwbl, ond mae'n rhaid i chi fod yn barod i chwilio.

3. Beth yw coeden hynafol?

Mae'r boncyff yn llydan iawn (sef cwmpas y goeden), ac mae'r canghennau'n dechrau cyn i'r goeden fynd yn uchel iawn. Os yw 4 ohonoch yn dal dwylo estynedig mewn cylch, dyna yw cwmpas coeden dderwen hynafol. Efallai y bydd angen llai o ddwylo gyda mathau eraill o goed. Mae gan y wefan www.ancient-tree-hunt.org.uk fwy o fanylion (cliciwch ar "Cymraeg" i gael yr holl wybodaeth yn y Gymraeg).

4. Dilyniant

Rydych nawr yn mynd i drosglwyddo'r holl wybodaeth yr ydych wedi'i chofnodi i fap sylfaen cryno. Pa eiriau, lliwiau a symbolau ddefnyddioch chi yn y maes? Penderfynwch ar allwedd gyffredin i ddangos rhai o'r nodweddion, neu'r holl

nodweddion a gofnodwyd gennych.

A oes unrhyw gysylltiadau rhwng y nodweddion ffisegol a'r math o goeden?

5. Cylchred maetholynnau

Mae holl rannau coed yn storio maetholynnau. Mae'r rhain yn cadw'r goeden yn iach ac yn ei helpu i dyfu. Bydd canghennau a dail yn pydru (dadelfennu) pan fyddant yn syrthio i'r ddaear. Mae'r matholynnau sydd ynddynt yn cael eu rhyddhau, yn mynd i mewn i'r pridd a felly yn helpu'r pridd i fod yn ffrwythlon. Mae gwreiddiau'r goeden yn sugno'r maetholynnau hyn er mwyn tyfu a thyfu dail newydd.

Lluniwch ddiagram crwm gyda saethau ynddo i ddangos y gylchred maetholynnau. Meddylwch am y labeli fydddech chi'n eu rhoi arno.

6. Beth ddysgais?

Ysgrifennwch gerdd fer neu stori neu rap am yr hyn rydych wedi'i ganfod.

Taflen Gofnodi

Lleoliad y safle	Uchder (metrau)	Ongl llethr	Wynebwydd	Draeniad	Math o bridd	Gwastraff	Cwmpas (metrau)	Enw'r goeden